

Annwyl

Y cais

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 8/8/22. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- rhestr o'r canolfannau iaith a sefydlwyd ers 2014 gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru, e.e. Yr Hen Lyfrgell, Yr Atom.
- Rhestr o'r arian a roddwyd i'r ganolfan, ym mha flwyddyn y rhoddwyd yr arian
- unrhyw asesiad a wnaed o lwyddiant neu fethiant y ganolfan.

Ein hymateb

Amgaeir copi o'r wybodaeth rwyf wedi penderfynu ei rhyddhau. Rwyf wedi penderfynu bod rhannau o Adroddiad Cau Yr Atom (Canolfan Gymraeg Gaerfyrddin) yn esempt o'r gofynion datgelu o dan adran(nau) S.43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly rhaid ei chadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r hyn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad [A] y llythyr hwn.

1. Cwmni Nico *Adroddiad Gwerthuso Cronfa Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg Llywodraeth Cymru*
2. *Adroddiadau gan y Canolfannau Iaith a dderbyniodd arian o dan y Gronfa uchod*

Blwyddyn ariannol 2014-15

- Coleg Cambria - £300,000 i ddatblygu Canolfan Cymraeg Gwaith ar gampws y coleg yn Wrecsam
- Prifysgol y Drindod Dewi Sant - £355,000 i ddatblygu canolfan iaith aml bwrpas yn nhref Caerfyrddin
- Cyngor Môn - £138,723 i ddatblygu canolfannau hwyrddyfodiaid cynradd a sefydlu canolfan hwyrddyfodiaid uwchradd ym Modedern
- Cyngor Sir Gâr - £110,000 i ddatblygu canolfan amlbwrpas yn Llanelli

Blwyddyn ariannol 2015-16

- Cyngor Môn - £58,843 i ddatblygu hwb cyfathrebu i bobl ifanc
- Cyngor Caerdydd - £400,000 i newid yr Hen Lyfrgell yn yr Aes i fod yn ganolfan Gymraeg aml bwrpas
- Cyngor Ceredigion - £150,000 i ddatblygu canolfan hwyrddyfodiaid yn Nhregaron fydd hefyd yn ganolfan i'r gymuned ehangach

- Cyngor Gwynedd - £300,000 i ddatblygu canolfan amlbwrpas yng nghanol Bangor
- Coleg Ceredigion - £300,000 i ddatblygu canolfan aml bwrpas yn Aberteifi
- Academi Hywel Teifi - £300,000 i ddatblygu canolfan amlbwrpas ym Mhontardawe

Y camau nesaf

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

ATODIAD A

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

Gwybodaeth a gedwir yn ôl	Rhif yr adran ac enw'r esemptiad
Gwybodaeth am Gynllun Strategol Yr Atom ar dudalennau 21 a 22 ac Atodiad 2 i Adroddiad Cau Yr Atom Canolfan Gymraeg Gaerfyrddin	S43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adran S43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n hystyriaeth ddilynol o Brawf Lles y Cyhoedd.

Gweithredu adran S43(2) o Ddeddf Rhyddid

Mae penderfyniadau ynglŷn â pheidio datgelu wedi cael eu cymryd gyda sylw dyledus i'r esemptiadau nodir o dan Adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG). Mae'n dweud bod gwybodaeth yn wybodaeth esempt os byddai ei ryddhau o dan y Ddeddf yn neu yn debygol o niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson (yn cynnwys yr awdurdod cyhoeddus sydd yn dal y wybodaeth).

Wrth ystyried os dylid defnyddio esemptiad mae'n rhaid ystyried beth yw effaith darparu'r wybodaeth i'r Byd gan mae dyna yw effaith rhyddhau gwybodaeth mewn ymateb i gais DRhG. Felly mae unrhyw ddiddordeb personol sydd gan y sawl sydd yn gwneud y cais am y wybodaeth o ychydig neu dim pwys oherwydd wrth ddatgelu'r wybodaeth mae'n cael ei ddatgelu nid yn unig iddyn nhw ond i'r holl Fyd.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r rhannau yma o'r adroddiad fod yn esempt o'r gofynion datgelu. Rydym yn ystyried eu bod yn cynnwys gwybodaeth am gynlluniau arfaethedig Yr Atom a gallu rhyddhau'r wybodaeth wneud niwed i fuddiannau masnachol y ganolfan.

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion o gynlluniau arfaethedig Yr Atom. Rydym o'r farn os gwneir y wybodaeth yma yn gyhoeddus byddai'n debygol o niweidio gallu Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i wneud Yr Atom yn economaidd hyfyw. Er mwyn gallu cynnal ei hunan mae'r Atom yn ddibynnol ar greu incwm drwy denantiaid, llogi ystafelloedd a chynnal digwyddiadau. Gallai rhyddhau gwybodaeth am flaenoriaethau a chynlluniau arfaethedig y ganolfan danseilio ei allu i fod yn hunangynhaliol yn y tymor hir. Byddai rhyddhau'r wybodaeth yn galluogi cystadleuwyr Yr Atom i dargedu eu cynlluniau yn fwy cywir ac ymosodol a thanseilio gallu'r Atom i ennill digon o fusnes.

Prawf Budd y Cyhoedd

Er mwyn bodloni prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r esemptiad(au), mae gofyn dod i'r casgliad bod y budd i'r cyhoedd o beidio â rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn *gryfach* na'r dadleuon o blaid rhyddhau'r wybodaeth.

Dadleuon budd cyhoeddus o blaid rhyddhau'r wybodaeth

Mae Canolfan Yr Atom wedi derbyn arian cyfalaf o dan gynllun grant Cronfa Buddsoddi Cyfalaf 2015 - 16 Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg Llywodraeth Cymru. Nod y cyllid cyfalaf hwn yw rhoi cymorth i sefydlu prosiectau strategol a fydd yn rhoi hwb i agenda bolisi'r Gymraeg, gyda phwyslais ar ddarparu sylfaen i brosiectau cymunedol fod yn hunangynhaliol. Roedd disgwyl i'r cynlluniau llwyddiannus ddangos dull arloesol o weithio a phwyslais ar gydweithio mewn partneriaeth ag eraill er lles y gymuned ehangach.

Oherwydd hyn gellid dadlau ei bod yn deg i'r cyhoedd gael gweld sut mae'r ganolfan am fynd ati i gynnal ei hunan ac i barhau i gyrraedd nod yr arian cyhoeddus ddyfarnwyd i'r prosiect drwy'r cynllun grant.

Dadleuon budd cyhoeddus o blaid peidio â rhyddhau'r wybodaeth

Mae cyllid sylweddol yn cael ei roi i gefnogi defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned ac nid yw o fudd i'r cyhoedd i danseilio effeithlonrwydd yr arian yma. Fel derbynnydd arian cyhoeddus mae o fudd i'r cyhoedd i sicrhau bod Yr Atom yn cael cyfle i ddatblygu i fod yn ganolfan hunangynhaliol hyfyw i sicrhau na wastreffir cyllid cyhoeddus.

Er mwyn gallu gwireddu nod hir dymor yr arian grant a fuddsoddwyd yn Yr Atom a sicrhau'r budd mwyaf i'r cyhoedd, mae'n bwysig peidio tanseilio gallu'r ganolfan ddatblygu ei gweithgareddau masnachol drwy ryddhau'r wybodaeth yma.

Cydbwysu buddiannau'r cyhoedd

Rydym o'r farn bod peidio rhyddhau gwybodaeth am gynllun strategol yr Atom yn drech na unrhyw fudd cyhoeddus o'i ryddhau.